



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O Offerwr i Athro



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Julian

Symudodd Julian o ddiwydiant i addysgu, ar ôl dechrau ei yrfa fel prentis offerwr. Mae bellach yn dysgu Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Uwchradd Willows.

Mae Julian yn rhannu sut y gwnaeth ei athro ei ysbrydoli i wneud y newid gyrfa hwn.

“Dyweddodd un o’r darlithwyr wrthyf: un diwrnod, fe allet ti fod yn sefyll yn gwneud yr hyn rwy’n ei wneud, yn addysgu ac yn addysgu’r dyfodol. Dyna pryd y plannwyd yr hedyn yn fy mhen.”

Nid athro yn unig yw Julian, ond mentor hefyd. Mae’n mynd yr ail filltir i rannu ei arbenigedd ac yn ymdrechu i arwain ac ysbrydoli ei fyfyrwyr.

“Y peth gorau am fod yn athrawes yw’r cyfle i drosglwyddo fy sgiliau a gwybodaeth i’r genhedlaeth iau, i fod yn fodel rôl, ac yn fentor, a dim ond bod yno i’w cefnogi.”

Mae Julian yn gwerthfawrogi’r effaith a gafodd modelau rôl ar ei daith gyrfa, ar ôl mynychu ysgol gynradd a gafodd, yn nodedig iawn, yr athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifoedd cyntaf yng Nghymru.

“Roeddwn i’n ffodus iawn i fynd i Ysgol Gynradd Mount Stuart, oedd â’r Brifathrawes Ddu gyntaf – Betty Campbell. Dyna’r cyswllt cyntaf ges i ag athro BAME o gwbl.”

Oherwydd hyn, mae Julian yn gwybod yn uniongyrchol am effaith barhaus gweld modelau rôl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn yr ystafell ddosbarth, er budd disgyblion a staff.

“Mae dysgwyr a staff yn elwa ar gynrychiolaeth yn yr ystafell ddosbarth oherwydd eu bod yn cael gweld modelau rôl sy’n adlewyrchu ac yn edrych fel nhw. A thrwy weld y modelau rôl cadarnhaol hynny mae’n caniatáu iddynt weld neu sylweddoli y gallant fod yn bopeth y dymunant fod.”

Ac i’r rhai sy’n ystyried gyrfa ym myd addysgu?

“Byddwn i’n dweud wrthyn nhw: cofiwch wybod eich bod chi’n gwneud gwahaniaeth.”